

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

Dyddiad / Date: Sed Rhagfyr 2022

01267 246524

E-bost / E-mail:

[Cwestiwnecs@sirgar.gov.uk](mailto:Cwestiwnecs@sirgar.gov.uk)

[QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk](mailto:QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk)

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Efallai y byddwch yn ymwybodol am gynnydd diweddar yn nifer yr hysbysiadau a gafwyd o'r dwymyn goch a'r clefyd streptococol ymledol. Plant o dan 10 oed sy'n cael eu heffeithio gan yr haint hwn yn bennaf, ac felly gall achosion ohono ddigwydd mewn ysgolion a meithrinfeydd. Bydd plant hŷn hefyd yn dueddol o gael dolur gwddf streptococol, ond efallai na fyddan nhw'n cael brech y dwymyn goch.

### Arwyddion a symptomau'r dwymyn goch

Mae'r dwymyn goch, a elwir weithiau'n *scarlatina*, yn glefyd heintus sy'n cael ei achosi gan facteria streptococws grŵp A (GAS) (a elwir hefyd yn *Streptococcus pyogenes*). Mae'n heintus iawn a gellir ei ddal drwy gysylltiad uniongyrchol ag unigolyn sydd wedi'i heintio neu drwy'r aer o ddiferion o beswch neu disian. Symptom nodweddiadol y dwymyn goch yw brech binc fân ar draws y corff sy'n teimlo fel papur gwydrog i'w gyffwrdd. Mae symptomau eraill yn cynnwys tymheredd uchel, wyneb gwritgoch a thafod coch, chwyddedig.

Mae'r driniaeth yn syml ac fel arfer mae'n cynnwys rhoi cwrs o wrthfotigau penisilin.

### Cymhlethdodau'r dwymyn goch a'r haint streptococol

Nid yw'r rhan fwyaf o achosion o'r dwymyn goch yn achosi unrhyw gymhlethdodau, yn enwedig os yw'r cyflwr yn cael ei drin yn iawn. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau ddigwydd yn ystod cyfnod cynnar y clefyd, gan gynnwys haint yn y glust, casgliad yn y gwddf, sinwsitis, niwmonia a llid yr ymennydd.

### Y camau a argymhellir

- Dylid cynghori rhieni plant sy'n sâl i gael cyngor meddygol ar gyfer diagnosis a thriniaeth.
- Dylai person sydd â'r dwymyn goch gadw o'r ysgol am 24 awr ar ôl cychwyn triniaeth wrthfotig briodol.
- Gall hylendid dwylo da ac osgoi lledaenu diferion anadlol (fel gyda'r fflw- "ei ddal, ei daflu, ei ddifa") helpu i atal yr haint rhag lledaenu.

Yn gywir,

Gareth Morgans

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

Dyddiad / Date: Sed Rhagfyr 2022

01267 246524

E-bost / E-mail:

[Cwestiwnecs@sirgar.gov.uk](mailto:Cwestiwnecs@sirgar.gov.uk)

[QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk](mailto:QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk)

Dear Parent / Guardian,

You may be aware of an increase in notifications of scarlet fever and invasive streptococcal disease. This infection mostly affects children aged under 10 years, and so outbreaks can occur in schools and nurseries. Older children are also susceptible to streptococcal sore throats but may not have the rash of scarlet fever.

### Signs and symptoms of scarlet fever

Scarlet fever, sometimes called scarlatina, is an infectious disease caused by group A streptococcus (GAS) bacteria (also known as *Streptococcus pyogenes*). It is highly infectious and can be caught through direct contact with an infected person or through the air via droplets from coughs or sneezes. The characteristic symptom of scarlet fever is a widespread, fine pink-red rash that feels like sandpaper to touch. Other symptoms include a high temperature, a flushed face and a red, swollen tongue. Treatment is straightforward and usually involves a course of penicillin antibiotics.

### Complications of scarlet fever and streptococcal infection

Most cases of scarlet fever cause no complications, especially if the condition is properly treated. However, complications in the early stages of the disease can include ear infection, throat abscess, sinusitis, pneumonia and meningitis.

### Recommended actions

- Parents of unwell children should seek medical advice for diagnosis and treatment
- A person with scarlet fever should withdraw from schools / settings for 24 hours after the commencement of appropriate antibiotic treatment
- Good hand hygiene and avoidance of spread of respiratory secretions (as per influenza- "catch it, bin it, kill it") can help to prevent the spread of infection

Yours sincerely,

Gareth Morgans

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English